



Ymddiriedaeth



Caredigrwydd



Gobaith

“ Gyda’n gilydd, byddwn yn rhoi diwedd ar dlodi”

POLISI CLWYDALYN

Cynllun Iaith Gymraeg

IMS/HR-POL-40c
Fersiwn 3

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau eraill. I wneud cais am fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk



ClwydAlyn

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD



Cysylltwch â ni



Gwasanaeth i
Gwsmeriaid

Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 17:00 Rhadffôn o linell tir 0800 183 5757 neu 01745 536800

Gwaith trwsio
argyfwng y tu allan i
oriau

0300 1233091 neu anfonwch neges destun 07786 202533 (cofiwch gynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn yn eich neges).



E-bost/ar-lein

help@clwydalyn.co.uk neu ar-lein @ <https://www.myclwydalyn.co.uk/>



Cyfeiriad post

72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanellwy, Llanellwy, Sir Ddinbych LL17 0JD

#Dylanwadwch

Hoffech chi gael cyfle i roi adborth ar y pethau sy'n bwysig i chi fel preswylydd ClwydAlyn? Hoffech chi ein helpu i lunio a gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i chi? Allwch chi sbario munud neu ddau, neu ychydig oriau bob mis? Os felly, dyma eich cyfle i ddod yn Ddylanwadwr gyda ClwydAlyn, felly cliciwch ar ein ffurflen [#Dylanwadwch](#) neu anfonwch e-bost atom influenceus@clwydalyn.co.uk

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y ddogfen hon yn gynhwysol i bawb. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm rheoli dogfennau yn hsqe@clwydalyn.co.uk

Gwybodaeth am Ddogfennau /Rheoli Dogfennau

Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad y cytunwyd arno sy'n cynnwys y set o egwyddorion sy'n gweithredu fel canllawiau i gyflawni nodau ClwydAlyn. Ni ellir newid y ddogfen hon oni bai y rhoddir awdurdod i wneud hynny gan ddefnyddio'r nodyn awdurdodi newid dogfen QF-F-10.

Cedwir y copi meistr gan y Rheolwr Dogfennau, cedwir y fersiwn PDF yn SharePoint ClwydAlyn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

Rhif Cyhoeddi a Hanes Adolygu

Rhif y Fersiwn	Manylion Adolygu /Rheswm dros newid	Awdur	Dyddiad
V1	Cymeradwywyd y Ddogfen Wreiddiol gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ar 04/11/2014.	Adran Pobl	04/11/2014
V2	Diweddarwyd y ddogfen i ddilyn templed newydd a strwythur y cwmni.	E. Gilbert	10/04/2024
V3	Diweddarwyd, adolygwyd a chymeradwywyd gan y Pwyllgor Pobl 02/07/2026	S. Williams	02/07/2026

Cynnwys

1	Datganiad Agoriadol.....	3
1.1	Nod y Cynllun.....	3
2	Amcanion a Gwerthoedd Corfforaethol.....	3
2.1	Ein Cenhadaeth.....	3
2.2	Ein Gwerthoedd.....	3
2.3	Cynhwysiant.....	4
2.4	Gwasanaethau a Ddarperir gan ClwydAlyn.....	4
2.5	Yr iaith Gymraeg.....	4
3	Cynllunio a Darparu Gwasanaethau.....	5
3.1	Polisiâu a Mentrau Newydd.....	5
3.2	Darparu Gwasanaethau.....	5
3.3	Gwasanaethau a Ddarperir.....	6
3.4	Partneriaethau.....	7
3.5	Safonau Ansawdd.....	7
4	Ymdrin ag Aelodau'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.....	7
4.1	Cyfathrebu Ysgrifenedig.....	7
4.2	Cyfathrebu dros y ffôn.....	8
4.3	Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb.....	9
4.4	Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus.....	9
4.5	Cyfarfodydd gydag aelodau'r cyhoedd.....	9
4.6	Digwyddiadau.....	10
5	Wyneb Cyhoeddus ClwydAlyn.....	10
5.1	Hunaniaeth Gorfforaethol.....	10
5.2	Arwyddion.....	10
5.3	Dogfennau.....	11
5.4	Datganiadau i'r Wasg.....	11
5.5	Y wefan a Thechnoleg Gwybodaeth.....	11
5.6	Cyfryngau Cymdeithasol.....	12
5.7	Ffurflenni a Deunyddiau Esboniadol.....	12
5.8	Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoedduswydd.....	13
5.9	Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff...13	
6	Rhoi'r Cynllun ar waith a'i Adolygu.....	14
6.1	Staffio a Recriwtio.....	14
6.2	Cyrsiau Addysg.....	15
6.3	Polisiâu AD a phrosesau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.....	15
6.4	Dysgu Cymraeg.....	15
6.5	Gwasanaethau a Ddarperir gan Gontractwyr ar ran ClwydAlyn.....	16
6.6	Monitro.....	16
6.7	Cwynion ac Adborth.....	17
6.8	Hysbysebu'r Cynllun a Chodi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd.....	17

1 Datganiad Agoriadol

1.1 Nod y Cynllun

Fel sefydliad balch o Gymru, mae ClwydAlyn yn ymroddedig i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws y sefydliad ac yn y cymunedau lle rydym yn gweithio.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal cymaint â phosibl.

Yn dilyn cymeradwyo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) ar 31 Mawrth 2026, mae'n ofynnol i'r sector tai cymdeithasol gydymffurfio â set o 133 o safonau sy'n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau, llunio polisiau, camau gweithredol a chadw cofnodion, yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r Comisiynydd Iaith i ddeall beth sy'n rhesymol ac yn gymesur.

Yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn a'n hysbysiad cydymffurfio terfynol, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror/Mawrth 2027, rydym yn disgwyl i Safonau'r Gymraeg ddod i rym ar 1 Hydref 2027.

Cyn ein hysbysiad cydymffurfio terfynol, a fydd yn nodi'r amserlenni y bydd angen i ni eu bodloni i gydymffurfio'n llawn (nid yw'r amserlenni cydymffurfio wedi'u negodi gyda'r Comisiynydd Iaith eto), mae'r polisi hwn yn nodi'r ymrwymadau y byddwn yn anelu tuag atynt i sicrhau ein bod yn bodloni ein cyfrifoldebau cyfreithiol a'n hymrwymadau ein hunain i hybu a galluogi'r diwylliant Cymraeg.

2 Amcanion a Gwerthoedd Corfforaethol

2.1 Ein Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw 'gyda'n gilydd i roi diwedd ar dlodi' – rydym eisiau i bawb yng Ngogledd Cymru gael mynediad at dai o ansawdd gwych, sy'n cael eu cynnal yn dda ac sy'n fforddiadwy i'w cynhesu a bod pobl yn gallu fforddio'r bwyd mae eu hangen arnynt i gadw'n iach.

2.2 Ein Gwerthoedd

Mae ein gwaith yn seiliedig ar ein gwerthoedd:

 **Ymddiriedaeth**

 **Gobaith**

 **Caredigrwydd**

2.3 Cynhwysiant

Rydym yn gwneud ein gorau i greu teimlad o berthyn, gan gynnig amgylchedd gwaith a byw amrywiol a chynhwysol lle gall pawb deimlo'n hapus, yn gyfforddus, ac yn ddiogel i fod yn nhw eu hunain. Rydym yn darparu gwasanaeth cwbl gynhwysol lle rydym yn dathlu gwahaniaethau, ac mae ein staff yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg ac i ddiwylliant Cymru yn rhan o'n cynllun cydraddoldeb a chynhwysiant ehangach.

2.4 Gwasanaethau a Ddarperir gan ClwydAlyn

Mae ClwydAlyn yn rheoli tua 7,000 o gartrefi ledled Gogledd Cymru ac yn cyflogi tua 700 o bobl i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli tai yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Powys, Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnwys tai cymdeithasol i deuluoedd a llety i unigolion, llety byw â chymorth a gwasanaethau gofal a nyrsio arbenigol, perchnogaeth tai cost isel, gwasanaethau rheoli prydles, tai canolradd a thai rhent y farchnad.

2.5 Yr iaith Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Safonau'r Gymraeg (Rhif 10), rydym yn ymroddedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn deg.

Ein nod yw galluogi ein holl gydweithwyr a'n preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth yn unol â'u dewisiadau iaith lle bynnag y bo'n rhesymol ac yn gymesur i wneud hynny.

Wrth ddatblygu ein Cynllun Iaith, rydym wedi ymgysylltu â phenaethiaid gwasanaethau o bob rhan o'r sefydliad i ddeall yr effaith ar ein cydweithwyr a'n preswylwyr. Mae eu hadborth wedi llywio cyfeiriad ac ymrwymiad ein Cynllun Iaith.

Fel rhan o hyn, rydym yn parhau i gasglu data ar ddewisiadau cyfathrebu ein cydweithwyr a'n preswylwyr i ddeall eu hanghenion fel y gallwn ymateb i'r ymrwymadau a nodir yn Safonau'r Gymraeg a llywio ein dull gweithredu.

3 Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

3.1 Polisïau a Mentrau Newydd

Wrth gynllunio ac adolygu polisïau neu fentrau, strategaethau, neu newidiadau i wasanaethau a strategaethau, bydd ClwydAlyn yn defnyddio'r Fframwaith Penderfyniadau Cynhwysol i asesu effaith ein darpariaeth iaith Gymraeg a sicrhau ein bod yn gwrando ar ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac yn eu hystyried.

Bydd staff sy'n llunio polisïau a mentrau newydd ac yn eu rhoi ar waith yn cael gwybod am y Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn ogystal â'r gofynion contractiol ar y sefydliad wrth weithio gyda sefydliadau eraill ac yn unol â Safonau'r Gymraeg a Rheoliadau'r Gymraeg (rhif 10) 2026 sy'n gymwys.

Bydd Pwyllgor Pobl ClwydAlyn yn monitro'r dull o roi'r Cynllun ar waith, drwy adroddiadau sicrwydd ar gydymffurfio, risgiau, cwynion, capasiti'r gweithlu a chamau gwella.

Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn unol â'n hysbysiad cydymffurfio drafft.

3.2 Darparu Gwasanaethau

Bydd ClwydAlyn yn ceisio darparu cynnig rhagweithiol o ran gwasanaethau Cymraeg heb yr angen i unigolion ofyn amdanynt lle bo'n bosibl gwneud hynny. Bydd angen cyflwyno hyn fesul cam dros amser wrth i ni weithio i oresgyn heriau wrth recriwtio cydweithwyr Cymraeg eu hiaith mewn rhai o'n meysydd gwaith.

Nod tymor hir ClwydAlyn yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy i siaradwyr Cymraeg. Lle mae Safonau wedi'u gosod, byddwn yn ceisio darparu gwasanaeth cynhwysfawr o'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg lle bo'n bosibl drwy wneud y canlynol:

- (a) sicrhau bod pob aelod staff/gwirfoddolwr yn gwybod sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau Cymraeg lle maent ar gael,
- (b) sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gwybod pa aelodau staff/gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg drwy ddefnyddio'r bathodynau Iaith Gwaith a phosteri,
- (c) darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff/gwirfoddolwyr er mwyn hwyluso'r broses o roi'r Cynllun ar waith,
- (d) hybu gweithleoedd dwyieithog yn ein swyddfeydd. Bydd adnoddau sydd ar gael gan y Comisiynydd Iaith i gynorthwyo hyn hefyd yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen,

- (e) cynnal gwasanaeth cyfieithu dibynadwy o safon uchel i sicrhau y caiff yr holl ddeunyddiau perthnasol eu cyfieithu'n gyflym ac yn ddibynadwy. Yn unol ag argymhelliad y Comisiynydd Iaith, bydd ClwydAlyn yn defnyddio cyfieithwyr proffesiynol.
- (f) bydd data dewisiadau cyfathrebu yn cael eu casglu, eu cofnodi a'u defnyddio'n gyson ar draws holl systemau cyswllt cwsmeriaid. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam dros y tair blynedd nesaf wrth i'r gwaith o ddatblygu ein data a'n systemau fynd rhagddo.

Bydd ClwydAlyn yn cyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun drwy roi'r trefniadau canlynol ar waith:

-  galluogi swyddogion o un Tîm sy'n gallu siarad Cymraeg i gynorthwyo Tîm arall lle bo'r angen, yn yr un lleoliad neu mewn lleoliad arall.
-  mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn iaith ddewisol y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth lle bo'n bosibl.
-  defnyddio cyfieithwyr proffesiynol
-  codi ymwybyddiaeth ymhlith staff ClwydAlyn am y Cynllun Iaith Gymraeg
-  ystyried yr angen i gynyddu faint o sgiliau Cymraeg sydd ar gael drwy hyfforddi a recriwtio.

Bydd ClwydAlyn yn llunio rhestr o'r gwasanaethau sydd ar gael yn gwbl ddwyieithog gyda'r nod o wneud gwasanaethau eraill yn gwbl ddwyieithog yn ystod cyfnod y polisi.

3.3 Gwasanaethau a Ddarperir

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn cyd-fynd ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn. Ein nod yw sicrhau bod cyrff trydydd parti yn deall y gofynion ac yn gweithredu yn ôl yr angen er mwyn i ClwydAlyn fodloni gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried ar y cam cyn caffael a'r cam manylebau a bydd yn cynnwys manylion perthnasol am y Cynllun yn y dogfennau tendro, contractau ac amodau a anfonir i'r asiantaeth neu'r cwmni perthnasol.

3.4 Partneriaethau

Mae ClwydAlyn yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol, sector preifat, ac asiantaethau eraill. Mae ClwydAlyn yn gweithredu ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill:

-  pan fydd ClwydAlyn yn arweinydd strategol ac ariannol partneriaeth sector cyhoeddus yng Nghymru, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg
-  pan fydd ClwydAlyn yn ymuno â phartneriaeth sy'n cael ei harwain gan gorff arall, bydd cyfraniad ClwydAlyn i bartneriaethau yn cydymffurfio â gofynion y Gymraeg

3.5 Safonau Ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg o'r un ansawdd ac yr un mor hygyrch a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

4 Ymdrin ag Aelodau'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Cyfathrebu Ysgrifenedig

Mae croeso i gwsmeriaid anfon gohebiaeth Gymraeg i ClwydAlyn a bydd y sawl sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg yn derbyn ateb Cymraeg ac yn cael cynnig hyn yn rhagweithiol.

- (a) Ni fydd unrhyw wahaniaeth rhwng amser cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd pob cyfathrebiad yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd, oni bai fod y cyfathrebiadau yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch neu gydymffurfio brys.
- (b) Bydd pob cyfathrebiad a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg.
- (c) Yn dilyn cyswllt wyneb yn wyneb yn y Gymraeg neu dros y ffôn, bydd unrhyw ohebiaeth ddilys yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- (d) Os yw'n hysbys bod yn well gan gwsmer dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg, lle bo'n ymarferol byddwn yn cyfathrebu â'r unigolyn hwnnw yn y Gymraeg, gan gynnwys gohebiaeth wedi'i hawtomeddio.
- (e) Bydd ClwydAlyn yn dal i gasglu data gan ein preswylwyr ynglŷn â'u dewisiadau cyfathrebu ac iaith ac yn ymateb yn unol â hynny.

- (f) Er mwyn hwyluso cyfathrebu â chwsmeriaid yn y Gymraeg, bydd ClwydAlyn yn cynnal ac yn darparu rhestr o gyfiethwyr i gydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg.
- (g) Os nad yw dewis iaith yr unigolyn yn hysbys, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, byddwn yn dal i weithio tuag at wella ein data am ddewisiadau cyfathrebu ac iaith. Bydd cyfathrebiadau allweddol fel mantolenni rhent yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
- (h) Bydd y papur pennawd a'r llofnod e-bost yn cynnwys nodyn ar y gwaelod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac yn cadarnhau na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Bydd croeso i gwsmeriaid sgwrsio â ni dros y ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a byddwn yn cynnig hyn yn rhagweithiol. Bydd ClwydAlyn yn cynnal llinell gymorth a bydd siaradwyr Cymraeg ar gael i ateb galwadau, gyda'r nod o sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael am o leiaf wyth awr y dydd.

Bydd canllawiau yn cael eu rhoi i staff o ran y camau i'w cymryd wrth ateb y ffôn. Bydd pob galwad allanol yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog safonol:

'Bore da ClwydAlyn' neu
'Prynhawn da ClwydAlyn'
'Noswaith da ClwydAlyn'

Os nad yw aelod staff yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog, bydd yn esbonio'r sefyllfa i'r unigolyn ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gan wirfoddolwr/aelod staff arall. Os nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, gall y galwr ddewis wneud y canlynol:

- (a) gofyn i siaradwr Cymraeg ei ffonio'n ôl
- (b) cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig (copi caled/e-bost);
- (c) parhau â'r sgwrs yn Saesneg.

Bydd ClwydAlyn yn darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad y gellir trosglwyddo galwadu iddynt.

Yn dilyn sgwrs ffôn yn y Gymraeg, byddwn yn cadw cofnod a bydd pob cyfathrebiad dilynol, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gais y galwr.

Oni bai fod dewis iaith y sawl rydym yn ei ffonio yn hysbys, pan fyddwn yn ffonio am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn a yw'r unigolyn yn dymuno

derbyn galwadau ffôn gennym yn y Gymraeg. Byddwn yn cadw cofnod o'r holl gyfathrebiadau dilynol, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gais y galwr.

4.3 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

Byddwn yn arddangos arwydd mewn derbynfeydd sy'n nodi bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd staff y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn gwisgo bathodyn iaith Gwaith i ddangos hynny.

Bydd ClwydAlyn yn ceisio sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael yn ei swyddfeydd i ymdrin ag ymholiadau yn y Gymraeg. Os nad yw aelod staff yn gallu ymdrin â'r mater yn llawn, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i ddod o hyd i unigolyn addas, yn y swyddfa neu dros y ffôn. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y cwsmer yn cael cyfle i drafod y mater yn Saesneg, neu bydd yr ymholiad yn cael ei nodi a'i drosglwyddo i aelod staff priodol er mwyn darparu ateb ysgrifenedig i'r cwsmer yn y Gymraeg.

4.4 Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus

Pan fydd ClwydAlyn yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus mawr yng Nghymru, fel cyfarfodydd rhanddeiliaid, ymgynghoriadau datblygu, a seremonïau torri'r dywarchen, byddwn yn sefydlu arferion safonol ar gyfer darpariaeth ddwyieithog. Bydd hysbysiadau'r holl gyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau cyhoeddus yn ddwyieithog, a byddant yn cynnwys datganiad yn nodi ein bod yn parchu hawl y rhai fydd yn bresennol i siarad Cymraeg neu Saesneg.

Bydd anghenion cyfieithu yn cael eu hasesu cyn cynnal unrhyw gyfarfod cyhoeddus neu gynhadledd. Darperir y cyfarpar cyfieithu priodol ar sail yr asesiad hwn. Os darperir cyfarpar cyfieithu rhoddir rhybudd ymlaen llaw bod croeso i bawb siarad Cymraeg.

Bydd siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith i ddangos pa aelodau staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

4.5 Cyfarfodydd gydag aelodau'r cyhoedd

Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb, rhithiol neu hybrid gydag aelod o'r cyhoedd, byddwn yn gofyn beth yw ei ddewis iaith ar y cyfle cyntaf ac, os mai'r Gymraeg yn ei ddewis iaith, byddwn yn sicrhau bod aelod staff cymwysedig sy'n siarad Cymraeg yn mynychu ar ran ClwydAlyn lle bo'n bosibl.

Os nad oes siaradwr Cymraeg addas ar gael, byddwn yn rhoi'r dewis i'r unigolyn barhau â'r cyfarfod yn y Saesneg neu ymdrin â'r mater trwy ohebu yn y Gymraeg.

4.6 Digwyddiadau

Pan fydd ClwydAlyn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu pan fyddwn yn ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, byddwn yn hyrwyddo'r digwyddiad yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn achos digwyddiadau o'r fath, byddwn yn sicrhau bod deunyddiau arddangos a gwybodaeth a ddefnyddir mewn arddangosfeydd a digwyddiadau yn ddwyieithog a bod unrhyw wasanaethau sy'n gysylltiedig â thai a ddarperir i'r rhai sy'n mynychu ar gael yn y ddwy iaith.

5 Wyneb Cyhoeddus ClwydAlyn

5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

Bydd ClwydAlyn a'i brif gontractwyr yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru. Bydd deunyddiau ysgrifenedig, logos a sloganau yn ddwyieithog. Bydd papur pennawd, slipiau cyfarch a chardiau apwyntiadau yn ddwyieithog a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd yr holl hysbysiadau cyffredinol a chyhoeddus a hysbysebion swyddi a anfonir i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd deunyddiau arddangos a gwybodaeth a ddefnyddir mewn arddangosiadau a digwyddiadau yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.2 Arwyddion

Mae ClwydAlyn yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth ar arwyddion yn ddwyieithog, gan gynnwys yn ei swyddfeydd. Bydd yr arwyddion yn cynnal egwyddor cydraddoldeb, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwch ben y Saesneg neu ochr yn ochr gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae'r ymrwymiad hwn yn gymwys i unrhyw arwyddion dros dro sy'n cael eu harddangos. Bydd arwyddion newydd yn y dyfodol yn gwbl ddwyieithog a bydd y ddwy iaith yn cael eu harddangos yn yr un ffordd ac yr un mor amlwg.

5.3 Dogfennau

Bydd ClwydAlyn yn argraffu ac yn cyhoeddi deunyddiau yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fyddant yn cael eu rhannu neu'u darparu i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac os ydynt:

- (a) yn darparu gwybodaeth am wasanaethau ClwydAlyn
- (b) yn esbonio a rhoi cyngor ar bolisiau, mentrau, datblygiadau a gwasanaethau newydd ClwydAlyn
- (c) yn gofyn am farn y cyhoedd drwy ymgynghori â nhw

Bydd dogfennau a chyhoeddiadau o'r fath yn cynnwys taflenni, llyfrynau, cyhoeddiadau corfforaethol a deunyddiau cyhoeddedig cyffredinol a gaiff eu dosbarthu i gwsmeriaid yng Nghymru gan ClwydAlyn neu ar ei ran.

Bydd cwsmeriaid yn gallu dewis derbyn gwybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg a byddwn yn cadw cofnodion o'r dewisiadau hyn. Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o safon uchel ac yn y fformat cywir a'i fod yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged. Os nad yw'n bosibl neu'n briodol i ni gyhoeddi deunyddiau dwyieithog, bydd fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân yn cael eu llunio. Yn yr achos hwn, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un safon, byddant yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd a byddant yn cynnwys nodyn yn dweud bod fersiwn Saesneg/Cymraeg ar gael

Gall achosion godi lle byddwn yn cyhoeddi dogfennau sy'n ymwneud â'n model ariannu penodol ac sy'n cael eu hariannu drwy safleoedd a gofynion cyfreithiol eraill ac felly na fydd yn bosibl eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

5.4 Datganiadau i'r Wasg

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi datganiadau a hysbysiadau dwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru lle bo'n bosibl.

Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, deallir y bydd yn rhaid cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Saesneg yn unig, ond yn yr holl amgylchiadau eraill bydd y broses gyfieithu yn cael ei chynnwys yn yr amserlenni cynllunio.

5.5 Y wefan a Thechnoleg Gwybodaeth

Bydd gwefannau ClwydAlyn yn gwbl ddwyieithog, a bydd gan yr holl dudalennau Saesneg dudalen Gymraeg gyfatebol unfath. Bydd y ddwy iaith yn ymddangos ar wahân, a bydd yn bosibl i ddefnyddwyr symud o

un iaith i'r llall ar unrhyw adeg drwy ddefnyddio'r botwm iaith amlwg. Bydd deunydd a gyhoeddir ar wefannau ClwydAlyn yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ac yn cael eu huwchlwytho ar yr un pryd.

Os na fydd y cynnwys Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd ar unrhyw adeg, yna bydd y cynnwys Saesneg yn ymddangos gyda nodyn a fydd yn hysbysu'r defnyddiwr pa pryd y bydd y dudalen Gymraeg ar gael, a bydd y fersiwn Cymraeg yn ymddangos cyn pen 2 ddiwrnod gwaith ar ôl hynny.

Wrth gynllunio neu ailddatblygu gwefannau neu unrhyw wasanaeth Technoleg Gwybodaeth arall, byddwn yn ystyried canllawiau'r Comisiynydd Iaith: 'Technoleg, gwefannau a meddalwedd: ystyried y Gymraeg'.

Wrth gyfeirio at y wefan mewn dogfennau cyhoeddus neu negeseuon e-bost, defnyddir y cyfeiriad gwe Cymraeg ar gyfer dogfennau Cymraeg a'r cyfeiriad gwe Saesneg ar gyfer dogfennau Saesneg. Defnyddir y ddau gyfeiriad pan fydd y cynnwys yn ddwyieithog e.e. ar ddeunyddiau naidlenni ('pop-up'). Dylai hyn gael ei wneud yn unol â chanllawiau brandio'r wefan.

Er mwyn helpu staff a gwirfoddolwyr i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd meddalwedd TG fel geiriadur a gwirydd sillafu Cysgliad ar gael ar gyfrifiaduron. Bydd fersiynau Cymraeg Microsoft Windows ac Office ar gael i staff a gwirfoddolwyr sy'n dymuno eu defnyddio hefyd. Gellir lawrlwytho copïau am ddim o wefan y Comisiynydd.

5.6 Cyfryngau Cymdeithasol

Bydd cyfathrebiadau cyfryngau ClwydAlyn yn ddwyieithog neu'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan adlewyrchu ein tôn llais i sicrhau eu bod yn naturiol ac yn organig. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg, os oes angen ateb.

5.7 Ffurflenni a Deunyddiau Esboniadol

Bydd ein holl ffurflenni cyhoeddus, gan gynnwys y rhai sydd ar gael yn ddigidol, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ein harfer safonol fydd llunio ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

Mewn rhai achosion (o bosibl oherwydd cymhlethdod ffurflen) ni fydd yn ymarferol i lunio fersiwn dwyieithog, ac mae'n bosibl y bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn fwy priodol. Mewn achosion

o'r fath, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ddilyn y canllawiau canlynol:

-  cael eu cyhoeddi ar yr un pryd
-  bod yr un mor hawdd i gael gafael arnynt mewn swyddfeydd a chanolfannau dosbarthu eraill
-  cael eu dosbarthu gyda'i gilydd, a
-  chynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall hefyd.

Bydd ClwydAlyn yn ceisio darganfod beth yw dewis iaith aelodau'r cyhoedd drwy gynnwys cwestiwn "dewis iaith" ar y ffurflen gyntaf mewn cyfres. Pan fydd dewis iaith unigolyn yn hysbys, byddwn yn dosbarthu deunyddiau Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog o hynny ymlaen, fel sy'n briodol.

Byddwn yn sicrhau bod cysoni termau yn arfer rheolaidd wrth lunio ffurflenni.

Bydd unrhyw ddatblygiad i sefydlu darpariaeth electronig ar gyfer llenwi ffurflenni yn sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg

5.8 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoeddusrwydd

Wrth roi gweithgarwch hysbysebu a chyhoeddusrwydd ar waith, gan gynnwys llunio taflenni, deunyddiau sain a fideo, ymgyrchoedd hysbysebu ac ymchwil marchnad, byddwn yn rhoi'r amcanion canlynol ar waith:

-  llunio'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg
-  hysbysebu yn y wasg yn y Gymraeg a'r Saesneg
-  hysbysebu ar bosteri a byrddau gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
-  cynnal arolygon cyhoeddus yn ddwyieithog, boed hynny drwy'r post neu wyneb yn wyneb
-  gosod arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth dwyieithog.

5.9 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff yn ymddangos yn ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd pecynnau gwybodaeth cwbl ddwyieithog, gan gynnwys swydd-ddisgrifiadau a manylion yr unigolion, yn cael eu llunio yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol.

Bydd gwybodaeth generig mewn pecynnau gwybodaeth, fel y ffurflen monitro ansawdd ac amrywiaeth a'r ffurflen gais, yn cael eu llunio yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer ein holl swyddi.

Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi y mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer yn ymddangos yn Gymraeg ym mhob cyhoeddiad, gyda nodyn esboniadol yn Saesneg ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg neu ddwyieithog.

6 Rhoi'r Cynllun ar waith a'i Adolygu

6.1 Staffio a Recriwtio

Bydd ClwydAlyn yn ceisio sicrhau y gall staff a gwirfoddolwyr ddarparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg ym mhob swyddfa a phrosiect.

Bydd pob swydd newydd neu wag yn y swyddfeydd ac ar brosiectau yn cael eu hadolygu i ddarganfod a yw'r angen am sgiliau Cymraeg llafar a/neu ysgrifenedig yn hanfodol neu'n ddymunol. Bydd unrhyw ofynion o'r fath yn cael eu cynnwys mewn swydd-ddisgrifiadau a manylion yr unigolyn. Sefydlir y meini prawf ar gyfer asesu'r gofyniad, gan gynnwys natur y swydd a pha mor aml y bydd deiliad y swydd yn dod i gysylltiad ag aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Os cafwyd trafferth recriwtio unigolyn sy'n siarad Cymraeg i swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, efallai y bydd angen ystyried penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg. Yn yr achos hwn, yr arfer fydd gwneud un o'r canlynol:

-  ailhysbysebu'r swydd, gan nodi y bydd ymgeiswyr di-Gymraeg yn cael eu hystyried ar yr amod eu bod yn ymrwymo i ddysgu Cymraeg i safon penodol o fewn amser penodol, gan gynnwys prawf o lefel eu cymhwysedd,
-  ailhysbysebu ar ôl cyfnod amser penodol, lle bynnag y gallwn ddefnyddio sefydliadau Cymraeg arbenigol sy'n gallu hyrwyddo'r swydd i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith.

Bydd pecynnau gwybodaeth cwbl ddwyieithog gan gynnwys swydd-ddisgrifiadau a manylion yr unigolion yn cael eu llunio yn y Gymraeg a'r

Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Bydd gwybodaeth generig mewn pecynnau gwybodaeth, fel y ffurflen monitro ansawdd ac amrywiaeth a'r ffurflen gais, yn cael eu llunio yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer ein holl swyddi.

Mae ffurflenni cais am swyddi yn cynnwys lle gwag i ymgeiswyr nodi a ydynt yn dymuno i gyfweliad neu unrhyw ddull asesu arall gael ei gynnal yn y Gymraeg ac os yw'r ymgeisydd yn dymuno, byddwn yn cynnal unrhyw gyfweliad neu ddull asesu arall yn y Gymraeg, neu os oes angen, byddwn yn darparu gwasanaethu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.

Darperir cymorth a hyfforddiant i staff i ddefnyddio'r Gymraeg fel y gallant ennill sgiliau newydd a gwella sgiliau presennol. Bydd adnoddau ClwydAlyn (h.y. arian uniongyrchol ac amser yn ystod oriau gwaith) yn cael eu dyrannu yn dibynnu ar yr asesiad o anghenion hyfforddiant a blaenoriaethau o ran y budd i ddarpariaeth gwasanaethau.

Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn cael ei gynnig i bob gweithiwr, cyfarwyddwr a gwirfoddolwr.

Er mai Saesneg yw iaith fusnes fewnol arferol ClwydAlyn, bydd ClwydAlyn yn chwilio am gyfleoedd er mwyn galluogi aelodau staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

6.2 Cyrsiau Addysg

Bydd hyfforddiant, gweithdai a chyfleoedd dysgu a ddarperir i breswylwyr neu aelodau'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg lle bo'r angen a lle bo'n bosibl yn rhesymol, a bydd dewis iaith yn cael ei ystyried yn ystod y broses gynllunio a chyflenwi.

6.3 Polisïau AD a phrosesau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

Bydd ClwydAlyn yn sicrhau mewn modd rhagweithiol bod polisïau AD a dogfennau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar gael i staff yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gall staff ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod prosesau disgyblu, cwynion cyflogaeth, cwynion a phrosesau ymchwiliadol eraill os ydynt yn dymuno, a byddwn yn cynnig hyn yn rhagweithiol.

6.4 Dysgu Cymraeg

Bydd ClwydAlyn yn annog ac yn cefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg, ac yn annog siaradwyr Cymraeg i

ddefnyddio'r iaith pryd bynnag y mae hynny'n ymarferol. Byddwn yn asesu anghenion hyfforddiant gweithwyr er mwyn adnabod staff a allai elwa ar raglenni hyfforddiant, cymorth ariannol neu oriau gwaith dynodedig gan ClwydAlyn er mwyn:

- (a) Cynorthwyo gweithwyr sy'n siarad Cymraeg y mae angen iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith er mwyn cyflawni eu dyletswyddau
- (b) Darparu sgiliau gweinyddol, technegol neu weithredol priodol i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg i gwsmeriaid
- (c) Datblygu sgiliau iaith Gymraeg aelodau staff nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Bydd ClwydAlyn yn cyflwyno mesurau i fonitro'r rhai sy'n datblygu a/neu'n dysgu sgiliau iaith Gymraeg.

6.5 Gwasanaethau a Ddarperir gan Gontractwyr ar ran ClwydAlyn

Trwy ei drefniadau contractio, bydd ClwydAlyn yn gwneud ei orau i sicrhau bod contractwyr yn rhoi holl adrannau perthnasol y Cynllun ar waith wrth ymdrin â chwsmeriaid neu'r cyhoedd.

Bydd ClwydAlyn yn gwneud darpariaethau i fonitro bod contractwyr yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol y Cynllun yn y trefniadau monitro safonol, gan gynnwys adroddiadau perfformiad rheolaidd gan gontractwyr.

Gall contractau neu drefniadau bara am gyfnod byr ac ar gyfer tasg neu weithgaredd penodol lle nad yw'n ymarferol cydymffurfio'n llawn â'r Cynllun. Mewn achosion o'r fath, ceisir sicrhau eu bod yn cydymffurfio hyd eithaf eu gallu o dan yr amgylchiadau a bydd penderfyniadau yn cael eu dogfennu.

6.6 Monitro

Bydd ClwydAlyn yn mesur y ffordd y caiff y Cynllun ei roi ar waith yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg a osodir arnom gan y Comisiynydd Iaith a'r hysbysiad cydymffurfio a'r amserlenni perthnasol.

Bob blwyddyn, cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Pobl.

Bydd adran ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun hwn yn cael ei chynnwys yn ein hadroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) blynyddol.

Bydd ClwydAlyn yn adolygu ac yn diweddarau'r Cynllun bob tair blynedd i sicrhau bod ymrwymadau yn adlewyrchu cyngor ac ymarfer da a gofynion Safonau'r Gymraeg a osodir arnom mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Iaith.

6.7 Cwynion ac Adborth

Bydd gweithdrefn gwyno gyfredol ClwydAlyn yn ymdrin ag unrhyw gwynion ynglŷn â gweithrediad y Cynllun, ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg neu'r gwasanaeth Cymraeg yn gyffredinol.

Mae ClwydAlyn yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd, ei staff a phreswylwyr ar sut i wella'r Cynllun a'r gwasanaeth Cymraeg. Dylid anfon unrhyw awgrymiadau at y Prif Weithredwr a byddant yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnod monitro.

6.8 Hysbysebu'r Cynllun a Chodi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

Ein nod hirdymor yw gweithio er mwyn sicrhau bod preswylwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gwybod bod gwasanaethau Cymraeg ar gael heb iddynt orfod ofyn amdanynt.

Byddwn yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â ClwydAlyn yn gwybod am y Cynllun a'i gynnwys. Bydd copïau o'r Cynllun ar gael ar wefan ClwydAlyn o 1 Hydref 2027. Defnyddir y dulliau cyhoeddusrwydd canlynol:

- (a) Rhoi gwybodaeth a chanllawiau i staff, cleientiaid a rhanddeiliaid
- (b) Sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i holl gydweithwyr drwy ddogfennau a reolir a'r fewnwyd, ac i'r cyhoedd yn gyffredinol drwy ei roi ar ein gwefan a darparu copïau pan ofynnir amdanynt.